# Trafnidiaeth a Pharcio yn Eryri (English below)

**Barn Clwb Mynydda Cymru (Chwefror 2021)**

Teimlwn ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi:

- Gwarchod yr amgylchfyd naturiol – o ran erydu a gor-ddefnydd o lwybrau, gormod o drafnidiaeth yn llygru ac achosi problemau parcio ac ati
- Gwarchod cyfleoedd pobl leol (ac nid mynyddwyr yn unig) i fwynhau cefn gwlad; ni ddylai'r ffaith fod yna broblemau dybryd mewn rhai llefydd ar rai adegau o'r flwyddyn rwystro pobl leol rhag cael mynediad rhwydd i'r mynyddoedd, llynnoedd, llwybrau ac ati – yn arbennig, pan na fyddai hynny'n creu trafferthion
- Tynnu sylw at broblemau a chanlyniadau gor-ddatblygu twristiaeth sydd wrth wraidd y problemau – wedi cyrraedd 'saturation point' (bwriadu chwilio am derm Cymraeg!)

**Mae angen i ni ystyried:**

- Ydi'r nifer o lefydd parcio a'u lleoliad yn yr ardal graidd yn ddigonol? A fyddem yn hapus i weld nifer gyfyngedig o leoedd parcio yn cael eu cyfyngu?
- Yda ni'n fodlon derbyn system rhagarchebu lle parcio? Sut fydd hyn yn effeithio ar drefnu teithiau'r Clwb? Pa fath o drefniadau ddylid eu cael ar gyfer pobl (leol) sydd yn byw yng Ngwynedd a Chonwy?
- Yda ni'n hapus i weld tâl parcio yn cael ei gyflwyno yn yr ardal graidd? A yw pobol lleol y barod i dalu mwy am barcio?
- A yw cael bysiau sy'n gallu cario beiciau yn flaenoriaeth?
- Oes angen cyfyngu gwersylla dros nos yn y cilfannau?
- A ddylid lleihau cyflymderau gyrru yn yr ardal graidd?
- A ddylid cynnwys Rhyd Ddu fel porth gan ei fod yn un o fannau cychwyn yr Wyddfa gyda chyfleusterau parcio a gorsaf reilffordd?
- Oes angen llwybrau newydd neu oes angen gwella eraill?

**Syniadau i'w trafod ymhellach:**

- Sefydlu gwasanaeth shuttle rhwng Nant Peris / Llanberis a Pen-y-Pass a Pen-y-Gwryd a hefyd rhwng Bethesda ac Ogwen gyda bysiau'n gadael bob 10/15 munud ar yr adegau brig. Y tu allan i'r amseroedd brig, gwasanaeth bws neu dacsi llai rheolaidd.
- Mesurau gorfodaeth caeth cyson - symud ceir sydd yn tramgwyddo yn yr ardal craidd yn ddisymwth.
- Creu llwybr cerdded o Nant Peris i Pen-y-Pass.
- Lleihau nifer y meysydd parcio ar ochr y ffordd a grëir ym Mhen-y-Gwryd.
- Llai o arwyddion priffyrdd yn yr ardal graidd.
- Lleihau cyflymderau teithio yn yr ardal graidd i 40mya

- Dynodi'r ardal graidd yn 'Clearway'
- Cynorthwyo'r economi leol. - Annog pobl i aros yn lleol ac i wario yn y siopau a chaffis lleol drwy sefydlu cynllun gwirfoddol lle mae gwesteion (oedolion) yn y gwestai yn cyfrannu hyn a hyn y pen y noson tuag at gronfa leol ac yn derbyn cerdyn sydd yn rhoi discownt iddynt wario mewn siopau a caffis lleol a cael teithio am ddim ar y bws a discownt ar y tren bach. Defnyddio'r arian yn y gronfa leol i ariannu prosiectau amgylcheddol a gwella dehongli a mynediad.
- Troi Pen-y-Pass i yn safle parcio trwy archebu ymlaen llaw yn unig ar gyfer trigolion lleol sydd â bathodyn / bathodyn glas.
- Sicrhau bod paneli dehongli neu gyhoeddiad ar y cyfryngau/deunydd marchnata yn defnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn unig.
- Gwneud yn siŵr bod unrhyw gyhoeddiad strategaeth yn dysgu pobl sut i fwynhau'r mynyddoedd yn ddiogel a pharchu'r amgylchedd - llai o boteli plastig gwag a baeddu cŵn mewn bagiau du.
- Rhoi arwyneb net ar laswellt caeau bach i'w ddefnyddio yn ystod yr amseroedd prysuraf. Ni fyddai wyneb y caeau yn cael ei ddifrodi a byddai ar gael i'w bori 9 mis y flwyddyn.
- Agor Parc & Ride yn Ystâd Ddiwydiannol wag Llandegai - yn agos iawn at yr A55- bws / tacsi i Ogwen / Llanberis.
- Ehangu'r meysydd parcio rhwng Betws y Coed a Capel Curig - bysiau o'r ardaloedd hyn i Capel Curig / Ogwen a Pen y Gwryd / Wyddfa / Nantgwynant.
- Agor Maes Parcio'r Comisiwn Coedwigaeth Pont Cae'r Gors rhwng Beddgelert a Rhyd ddu a Park & Ride oddi yno i Beddgelert a Rhyd ddu / Caernarfon.
- Meusydd parcio o fewn y parc i fod ar gau i ymwelwyr a'i gadw i'w ddefnyddio gan staff y Parc / Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Tim Achub Mynydd ac i bobl leol brynu Tocyn Preswyliwr "Trwydded" i barcio yn rhai o'r meysydd parcio bob blwyddyn.
- Park & Ride o Glyn Rhonwy.

**Clwb Mynydda Cymru's views: (February 2021)**

We feel it is important that we support:

- The protection of the natural environment - in terms of erosion and overuse of paths, excessive traffic pollution and causing parking problems etc.
- Promote the protection of opportunities for local people (and not just mountaineers) to enjoy the countryside; the fact that there are serious problems in some places at certain times of the year should not deter local people from having easy access to the mountains, lakes, trails etc.
- Highlighting the problems and consequences of over-development of tourism at the root of the problems - reached 'saturation point'

**We need to consider:**

- Are the number of parking spaces and their location in the core area adequate? Would we be happy to see a limited number of parking spaces restricted?
- Are we willing to accept a parking booking system? How will this affect the organization of

Club meetings? What sort of arrangements should there be for (local) people living in Gwynedd and Conwy?

- Are we happy to see a parking charge introduced in the core area? Are our members willing to pay more for parking?
- Is having buses that can carry bikes a priority?
- Do you need to consider restricting overnight camping in the lay-bys?
- Should driving speeds be reduced in the core area?
- Should Rhyd Ddu be included as a gateway as it is one of the starting points for Snowdon with parking facilities and a train station?
- Are new paths needed or other improvements needed?

**Ideas for further discussion:**

- Establish shuttle service between Nant Peris / Llanberis and Pen-y-Pass and Pen-y-Gwryd and also between Bethesda and Ogwen with buses departing every 10/15 minutes at peak times. Outside of peak times less regular bus or taxi service.
- Constant strict enforcement measures - the immediate removal of offending cars in the core area.
- Create a footpath from Nant Peris to Pen-y-Pass
- Reduce the number of roadside car parks created at Pen-y-Gwryd.
- Fewer highway signs in the core area
- Reduce travel speeds within the core area to 40mph
- Designation of core area as 'Clearway'
- Assisting the local economy. - Encourage people to stay local and spend in local shops and cafes by setting up a voluntary scheme where guest guests (adults) contribute a small amount per night towards a local fund and receive a card that gives a discount for them to spend in local shops and cafes and get free bus travel and a discount on the minibus. Use the money in the local fund to fund environmental projects and improve interpretation and access.
- Turn Pen-y-Pass into a parking area by pre-order only for local residents with a blue badge / badge.
- Make sure that interpretation panels or media / marketing publications use only Welsh place names.
- Make sure that any strategy publication teaches people how to enjoy the mountains safely and respect the environment - less empty plastic bottles and dog fouling in black bags.
- Putting a net surface on the grass of small fields for use with Betws y Coed during the busiest times. The surface of the fields would not be damaged and would be available for grazing 9 months a year.
- Open a Park & Ride at the vacant Llandegai Industrial Estate - very close to the A55- bus / taxi to Ogwen / Llanberis.
- Enlarge the car parks between Betws y Coed Lane and Capel Curig - buses from these areas to Capel Curig / Ogwen and Pen y Gwryd / Snowdon / Nantgwynant.
- Opening of Forestry Commission Car Park Cae'r Gors Bridge between Beddgelert and Rhyd ddu and Park & Ride from there to Beddgelert and Rhyd ddu / Caernarfon.

- Car parking within the park to be closed to visitors and reserved for use by Park staff/ National Trust, MRT and for local people to buy a "Permit" Resident Ticket to park in some of the car parks annually.
- Park and ride from Glyn Rhonwy.